Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **23 Awst 2006**

Teitl: MYFYRWYR YN RHOI CANMOLIAETH UCHEL I GYRSIAU ADDYSG UWCH

Dangosodd canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC), a ryddheir heddiw, fod rhyw bedwar o bob pump o fyfyrwyr prifysgolion a ymatebodd i'r arolwg yn 2006 yn fodlon â'u cyrsiau addysg uwch.

Darparodd yr arolwg, sydd bellach yn ei ail flwyddyn, giplun o'r sector addysg uwch a gofynnodd i fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf i ymateb i 22 cwestiwn yn ymwneud â'u profiadau dysgu ac addysgu. Roedd yn ymdrin yn bennaf â myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Nid yn unig yr oedd, ar y cyfan, welliant yn lefel y bodlonrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf mewn ymateb i nifer o gwestiynau, ond nododd myfyrwyr eu bod yn hynod fodlon bod:

- Eu cwrs yn ysgogol ddeallusol (81 y cant yn cytuno'n bendant neu'n bennaf);
- Roedd eu sgiliau cyfathrebu wedi gwella (79 y cant yn cytuno'n bendant neu'n bennaf);
- Roedd y staff yn frwdfrydig ynghylch yr hyn roeddent yn ei wneud (80 y cant yn cytuno'n bendant neu'n bennaf);
- Roeddent yn gallu cysylltu â staff pan roedd angen iddynt (77 y cant yn cytuno'n bendant neu'n bennaf).

Dywedodd Jamie McIndo, Llywydd NUS Cymru:

"Mae NUS Cymru yn croesawu canlyniadau eleni o'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol.

"Mae'r arolwg yn rhoi cyfle i fyfyrwyr blwyddyn olaf roi asesiad gonest o'r cwrs iddynt astudio yn ogystal â chynnig gwybodaeth werthfawr i fyfyrwyr y dyfodol.

“Mae’r arolwg o gymorth i ddatblygu perthynas weithio agosach rhwng sefydliadau addysg uwch ac undebau myfyrwyr unigol ac mae’r canlyniadau’n dangos bod myfyrwyr yn awyddus i wneud cyfraniad gweithredol i’r arolwg."

Dywedodd yr Athro Phil Gummett, Prif Weithredwr CCAUC:

"Rwy’n falch iawn o weld y dystiolaeth hon gan fyfyrwyr yn uniongyrchol, ac yn annibynnol, sy’n cadarnhau eu lefel uchel iawn o fodlonrwydd ag addysg uwch yng Nghymru."

Dywedodd llefarydd ar ran Addysg Uwch Cymru, sef corff cynrychioliadol Is-Gangellorion a Phenaethiaid yng Nghymru:

“Mae’r canlyniadau hyn yn cadarnhau ymrwymiad parhaus ein sefydliadau addysg uwch i gynnig profiad ansawdd uchel i fyfyrwyr ac mae’n dystiolaeth bellach o’r adenillion sylweddol y mae prifysgolion yn eu gwneud ar fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad.

“Fodd bynnag, mae buddsoddiad cynaliadwy yn y sector AU yn hanfodol os yw Sefydliadau Addysg Uwch Cymru am barhau i ddenu a chefnogi myfyrwyr lleol a chenedlaethol wrth barhau i fod yn gystadleuol yn fyd-eang.”

Dywedodd Jane Davidson, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

"Mae hyn yn newyddion gwych i sefydliadau addysg uwch Cymru.

“Mae’n hanfodol gyda’r cyfundrefnau ffioedd gwersi yn newid ar hyd a lled y DU, gall myfyrwyr fod yn hyderus yn ansawdd uchel yr addysgu a’r profiad cyfan fel myfyriwr y byddant yn ei gael yng Nghymru.

“Rydym am wneud yn siwr mai Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yw’r dewis cyntaf i fyfyrwyr o ble bynnag y dônt. Mae rhagoriaeth darpariaeth addysgol yn rhywbeth y mae’n rhaid i ni gyd ymdrechu ar ei gyfer ac mae’r canlyniadau hyn yn profi ein bod yn symud i’r cyfeiriad iawn.”

Bydd canlyniadau llawn ar gael ar wefan Teaching Quality Information, www.tqi.ac.uk, o 12 canol dydd heddiw.

Diwedd

Cysylltiadau â'r cyfryngau

CCAUC

Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebiadau - 029 2068 2225.

Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Rheolaeth Gorfforaethol - 029 2068 2280.

Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol

Cynhaliwyd yr ail AMC yng ngwanwyn 2006 ac ymatebodd 56 y cant o fyfyrwyr blwyddyn olaf (gweler nodyn 6). Mae'r canlyniadau'n dangos i dros 30 y cant gytuno'n bendant ac roedd 50 y cant yn cytuno'n bennaf ond yn gyffredinol roeddent yn fodlon ag ansawdd eu cwrs; dim ond 10 y cant oedd yn anghytuno'n bennaf neu'n bendant.

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddarpar fyfyrwyr, mae data'r AMC yn dangos i brifysgolion a cholegau sut y gallant wella ansawdd profiad y myfyrwyr. Ysgogwyd ystod eang o gymhellion a gwelliannau gan ganlyniadau arolwg y llynedd, gan gynnwys cyfleusterau newydd a chynlluniau cymorth i fyfyrwyr; estynnwyd oriau agor i lyfrgelloedd a gwasanaethau eraill; systemau asesu ac adborth newydd, a gweithdrefnau ymgynghori â myfyrwyr mwy effeithiol.

Gan ymateb i 22 cwestiwn yn yr AMC, yn ymdrin â chwe phrif faes dysgu ac addysgu, nododd yr ymatebion lefelau uchel o fodlonrwydd. Er enghraifft:

- 'Mae'r cwrs yn ddeallusol ysgogol' (81 y cant yn cytuno'n bendant neu'n bennaf)
- 'Mae fy sgiliau cyfathrebu wedi gwella' (79 y cant yn cytuno'n bendant neu'n bennaf)
- 'Mae'r staff yn frwdfrydig ynghylch yr hyn maent yn ei wneud' (80 y cant yn cytuno'n bendant neu'n bennaf)
- 'Rwyf wedi bod yn gallu cysylltu â staff pan fo angen' (77 y cant yn cytuno'n bendant neu'n bennaf).

Roedd y lefel bodlonrwydd yn seiliedig ar ymatebion gan dros 157,000 o fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf (nodyn 6). Mae hyn yn cynrychioli 56 y cant o'r 279,000 o fyfyrwyr cymwys mewn 145 o sefydliadau addysg uwch. Cyflawnodd rhyw 129 o sefydliadau gyfradd dychwelyd uwch na 50 y cant, gyda'r uchaf ar 80 y cant. Wedi'i gynnwys yng nghyfanswm y DU yn fras oedd 11,000 o ymatebwyr yn mynychu sefydliad yng Nghymru.

Gwefan Gwybodaeth Ansawdd Addysgu

Mae gwefan TQI yn helpu darpar fyfyrwyr i wneud dewisiadau ynghylch beth a ble i astudio. Fe'i lansiwyd yn 2005, a bydd gwelliannau diweddar yn gwneud y safle'n haws ei ddefnyddio. Bydd mwy o welliannau mawr yn cael eu gwneud yn 2007, gan gynnwys cysylltiadau agosach gyda gwefan ceisiadau UCAS.
Mae safle TQI yn dod ag ystod o wybodaeth swyddogol, ddiduedd a diweddar at ei gilydd am ansawdd yr addysg a gynigir gan brifysgolion a cholegau, gan gynnwys:

Ystadegau:

- data ar gymwysterau mynediad myfyrwyr, eu parhad trwy eu hastudiaethau, dyfarniadau a gyflawnwyd a'r mathau o swyddi a geir ar ôl graddio.

Canlyniadau Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol:

- cyfraddau adborth myfyrwyr ar agweddau allweddol ar eu haddysg, fel cymorth academaidd ac adnoddau dysgu.

Adroddiadau pwnc:

- adroddiadau a gwybodaeth a gyhoeddir gan bob sefydliad am ansawdd a safonau dyfarniadau mewn pynciau penodol.

Mae'r safle'n darparu'r wybodaeth hon ar gyfer pob pwnc a gynigir gan bob sefydliad, ac mae hefyd yn galluogi defnyddwyr i greu cymariaethau ochr yn ochr ar draws nifer o sefydliadau ar y tro.

Nodiadau i olygyddion

1. Mae'r canrannau a ddefnyddir yn y datganiad i'r wasg hwn yn ymwneud â myfyrwyr amser llawn. Mae cyfran y myfyrwyr rhan-amser a gymerodd ran yn yr arolwg eleni yn is na'r llynedd sy'n golygu na ellir cymharu cyfanswm y myfyrwyr amser llawn a rhan-amser ar gyfer 2005 a 2006. Fodd bynnag, mae data ar gyfer myfyrwyr rhan-amser ar gael o HEFCE a byddant ar wefan TQI.

2. Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) yn rhan o wefan y Teaching Quality Information a lansiwyd ym mis Medi 2005. Mae'r AMC yn ymwneud â myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Eleni, mae Prifysgol Caeredin, Prifysgol Glasgow, Prifysgol St Andrews a Phrifysgol annibynnol Buckingham yn cymryd rhan hefyd, fel ag y mae myfyrwyr ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon a ariennir gan yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.

3. Cynhaliwyd yr AMC gan Ipsos MORI. Mae'r data ar gael ar wefan TQI a ddatblygir ac a gynhelir gan HERO Ltd.

4. Mae gwefan TQI yn dod â ffynonellau allweddol o wybodaeth swyddogol am ansawdd addysg uwch y DU at ei gilydd. Mae'n rhan o fenter i sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i ymgeiswyr a'u hymgynghorwyr, a bydd o gymorth i ddarpar fyfyrwyr wneud dewisiadau mwy deallus ynghylch beth a ble maent am astudio.

5. Oherwydd y gwahaniaeth mewn trefniadau sicrhau ansawdd mewn rhannau gwahanol o'r DU, ni chaiff rhai mathau o wybodaeth eu cyhoeddi ar gyfer pob sefydliad.

6. Gwahoddwyd y rhan fwyaf o fyfyrwyr a oedd yn agosáu at ddiwedd cyrsiau israddedig (graddau baglor, tystysgrifau a diplomâu addysg uwch) i gymryd rhan, gan wneud cyfanswm o 279,000 o fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser. Hwyrach nad oedd cyfran fach iawn o fyfyrwyr rhan-amser a lenwodd yr arolwg yn eu blwyddyn olaf. Roedd y dewis o fyfyrwyr a wahoddwyd i gymryd rhan yr un fath ar gyfer pob sefydliad, gan ddefnyddio data a gasglwyd yn ganolog gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

7. Ymatebodd myfyrwyr i gwestiynau ar ansawdd yr addysgu ar eu cyrsiau penodol eu hunain. Yna cafodd cyrsiau eu grwpio yn 41 maes pwnc gwahanol er mwyn cyflwyno'r canlyniadau mewn ffordd fwy hygyrch.

Cefndir – CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

undeb cenedlaethol myfyrwyr cymru
national union of students wales